

Mae rhai wedi ymrwymo i gyfrannu yn fisol neu'n flynyddol, ac eraill yn ymateb i'r Apêl Flynyddol a wneir erbyn hyn bob mis Mawrth. (Gellir cyfrannu unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae'r Apêl Flynyddol yn rhoi cyfle arbennig i ni atgoffa ein cefnogwyr o'r angen ariannol.) Os medrwch gyfrannu unrhyw swm, byddwn yn ddiolchgar iawn i chi. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sicciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mawrth 15:** Bydd yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mawrth, Mawrth 10:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Fawrth, Mawrth 10:** Cynhelir Swper Blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Dolbadam.

**Nos Wener, Mawrth 13:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 15:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr John H

Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad aelodau Parti Bytholwyrdd.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mawrth 15:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Mawrth 15:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gareth Edwards, Deganwy.

### CARMEL

**Dydd Llun, Mawrth 9:** Dosbarth Gwau yn y festri am 2.00 o'r gloch.

**Nos Fercher, Mawrth 11:** Pwyllgor Ymddiriedolwyr Carmel am 7.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mawrth 13:** Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 15:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni.

### CYNLLUN EFE

**Nos Fercher, Mawrth 11:** Cyfarfod Ymddiriedolwyr yng nghapel Caethro am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Gwener, Mawrth 13:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Mawrth 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

### Mawrth 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Mawrth 22

10.00 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Yr Oedfa Sefydli  
yng Ngharmel Llanllechid

## Y mis nesaf - Llanberis

### Mawrth 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Mawrth 15

10.00 a.m. - Mr John Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa Parti Bytholwyrdd

### Mawrth 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Yr Oedfa Sefydli  
yng Ngharmel Llanllechid



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 628 Dydd Sul, 08 Mawrth, 2015

## Anesmwytho

Nid syndod oedd clywed y newyddion o Brifysgol Aberystwyth ddechrau'r wythnos ddiwethaf. Wedi'r cwbl, nid yw'r myfyrwyr sy'n mynnu bod y Beibl yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anghysurus yn dweud dim newydd. Oherwydd mae Gair Duw wedi gwneud hynny erioed. O'r cychwyn cyntaf mae geiriau'r Duw byw wedi aflonyddu ar bobl. Byth ers i Adda ac Efa glywed Duw yn siarad â nhw yng ngardd Eden, mae geiriau Duw trwy'r tatau a'r proffwydi a'r apostolion, a thrwy enau Iesu Grist hun, wedi gwneud hynny.

Ar un ystyr, felly, gallaf ddeall yr hyn a ddywed y myfyrwyr am y Beibl, ei fod yn llyfr sy'n anesmwytho. Mae pob Cristion yn gwybod hynny'n dda. Mae wedi bod yn ddirgelwch llwyr i mi ers blynyddoedd sut y gall neb ddarllen y Deg Gorchymyn neu'r Bregeth ar y Mynydd neu lythyrau'r Testament Newydd heb gael ei anesmwytho wrth sylweddoli mor bell ydym o'r safon a'r disgwyliadau a gyflwynir i ni yn y darnau hyn o'r Ysgrythur. Mae'r Beibl i fod i'n hanesmwytho; mae geiriau Duw wedi eu rhoi er mwyn aflonyddu arnom a gwneud i ni weld ein hangen am y gras a'r trugaredd a gyflwynir i ni yn yr Efengyl. Ond wrth gwrs, mae'r Beibl yn gwneud mwy nag aflonyddu arnom gan fod ei eiriau'n dod â chysur a gobaith a llawenydd hefyd. Mae Gair byw'r Duw byw yn goleuo ein meddwl ac yn dangos y ffordd at Dduw a'r ffordd i'r bywyd sy'n fywyd yn wir.

Cwyno mae rhai o fyfyrwyr Aber am y Beiblau a osodwyd yn eu hystafelloedd yn llety'r Brifysgol. Cymdeithas y Gideoniaid sy'n darparu'r Beiblau hyn i'r Brifysgol. Maent wedi gwneud yr un peth ers blynyddoedd i westai ac ysbytai a sefydliadau eraill, ac mae cenedlaethau o ddisgyblion ysgol wedi cael Beibl neu Destament Newydd yn rhodd gan y Gymdeithas hon. Mae llawer wedi gwerthfawrogi'r rhodd honno'n fawr ac wedi trysori'r llyfrau, ac eraill heb erioed eu hagog ers iddyn nhw eu derbyn. Ond mae'r Gideoniaid wedi parhau i ddarparu'r Beiblau yn y gobaith y bydd rhywrai'n eu darllen ac yn clywed trwyddynt lais y Duw byw yn eu cyfarch, i'w hargyhoeddi a'u calonogi a'u bywhau.

Yn ôl a ddeallaf, mae'r myfyrwyr am gynnal refferendwm i benderfynu a ddylid parhau i osod Beiblau yn llety'r Brifysgol. I bawb ohonom sy'n falch o weld y Beibl yn cael ei ddosbarthu'n eang, peth trist yw meddwl y gall yr arfer o osod Beibl yn llety'r Brifysgol ddod i ben. Yr hyn na allaf ei ddeall am gŵyn y myfyrwyr yw'r elfen o hurtrwydd sy'n medru perthyn iddi. Oherwydd sut all llyfr – clawr a swp o dudalennau – anesmwytho neb? Ydyn ni yn y gwledydd hyn wedi llwyddo i fagu cenhedlaeth mor ofergoelus nes bod pobl yn ofni llyfr nad oes ganddyn nhw'r un bwriad o'i ddarllen? Gweddiwn y bydd neges y Beibl (yn hytrach na'r gyfrol ei hun) yn peri'r anesmwythd sy'n troi pobl at Dduw.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad. Croeso i'r rhai a fydd yn arwain yr addoliad heddiw, a diolch iddynt am eu cymorth.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg John Lewis Jones, Bae Colwyn.

Cynhelir Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 2.00 o'r goch gan y Gweinidog.

## Oedfa Sefydlu

Cofiwch am yr Oedfa Sefydlu a gynhelir yng nghapel Carmel, Llanllechid am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Mawrth 22 er mwyn nodi'n swyddogol ymestyn yr Ofalaeth i gynnwys eglwys Annibynnol Carmel a Bethlehem, Talybont pan gaiff y Parchg John Pritchard ei sefydlu'n weinidog i'r ddwy eglwys.

Estynnir croeso cynnes i aelodau'r ddwy eglwys i'r oedfa hon. Estynnir croeso hefyd i aelodau'r eglwysi yn Llanberis a Deiniolen a Nant Peris i ymuno yn yr oedfa er mwyn nodi dechrau newydd yr Ofalaeth estynedig. Bydd croeso hefyd wrth gwrs i gyfeillion yr eglwysi a phawb a garai ddod yno i fod yn rhan o'r dathliad a'r addoliad.

Bydd lluniaeth ysgafn yn y festri ar ôl y gwasanaeth.

Bydd y bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 3.55 gan droi'n ôl yn Rhydfadog; ymlaen wedyn i groeslon Racca erbyn 4.05; yna i Lanberis, gan droi'n ôl ger Rhes y Faenol am 4.15, a dod trwy'r pentref gan aros yn y mannau arferol. Pris y bws fydd £4.

Os ydych am ddod ar y bws rhwch wybod i Miss Dilys Mai Roberts yn Llanberis neu Miss Marian Jones yn Neiniolen os gwelwch yn dda. A chofiwch roi gwybod iddynt os byddwch wedi rhoi eich enw ac yna'n methu â dod am unrhyw reswm, rhag i'r bws aros amdanoch yn ofer.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Ernest a Margaret Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen o glywed am farwolaeth eu chwaer yng nghyfraith, Mrs Mair Parry yn Llanrug. Cynhelir ei hangladd yn Amlogfa Bangor am 1.30 o'r gloch yfory, ddydd Llun, Mawrth 9.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Dydd Gweddi'r Chwiorydd

Cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Ebeneser, Deiniolen echnos, nos Wener, Mawrth 6. Gwnaed casgliad o £20. Diolch i bawb a gymerodd ran ac a drefnodd y cyfarfod eto leni.

## Casgliad y Genhadaeth

Dros y mis nesaf byddwn yn gwneud y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

## Swper Gymdeithas

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas Undebol Llanberis yng Ngwesty'r Dolbadarn nos Fawrth yr wythnos hon, Mawrth 10. Mae gofyn bod yno i ddechrau bwyta am 7.00 o'r gloch. Y gwsteion fydd Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, a chawn sgwrs ar ôl swper am 'Deithio Tramor'.

Cofiwch, yn wahanol i'r arfer gennym, nad hwn fydd cyfarfod olaf y tymor. Bydd gennym un noson arall y mis nesaf.

## Adolygiad Efe

Yng nghapel Caeathro, nos Fercher yr wythnos hon, Mawrth 11, bydd cyfle i Ymddiriedolwyr Cynllun Efe drafod y gwaith yng nghwmni cynrychiolydd Undeb y Gair (Scripture Union). Bydd yn gyfle, gobeithio, i ni gael syniadau am y ffordd i ddatblygu'r gwaith.

## Dydd Gweddi Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal Dydd Gweddi yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ddydd Llun, Mawrth 16, rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yng ngwaith Efe i ddod yno pa bryd bynnag fydd yn hwylus yn ystod y pawns a'r gyda'r nos. Nid oes rhaid i neb ddod am y cyfnod cyfan, ond bydd croeso i bobl bicio i mewn am gyfnod, hyd yn oed os mai ychydig funudau fydd hynny.

Bydd y cyfan mor anffurfiol ag y bo modd, a dim pwysau ar neb i gymryd rhan 'yn gyhoeddus'. Mae amryw o bobl wedi cytuno i arwain yr addoli a'r gweddio am gyfnodau penodol. Bydd cyfle am banded a sgwrs bob hyn a hyn yn ystod y dydd.

Am ragor o fanylion cysylltwch ag Andrew neu'r Gweinidog.

## Apêl Flynyddol Efe

Daeth yn amser i gyflwyno Apêl Flynyddol Cynllun Efe, sy'n cynnal Andrew Settaree yn weithiwr ieuencid Cristnogol ym mro Eco'r Wyddfa.

Y nod yw cyflwyno'r Efyngyl i Fro'r Eco, a llythrennau cyntaf y geiriau hyn sy'n rhoi'r enw 'Efe' i ni.

Ddwy flynedd yn ôl, aed ati i geisio mwy o bobl i gyfrannu'n ariannol at y gwaith am ein bod yn sylweddoli mai arnom ni yn lleol yr oedd y cyfrifoldeb a'r fraint o gefnogi'r gwaith hwn.

Cyflwynwyd cynlluniau 'Un o Gant' ac 'Un o Fil'. Y syniad oedd cael 1000 o bobl i gyfrannu £20 y flwyddyn at y gwaith, a 100 o bobl i gyfrannu £100. Cafwyd cefnogaeth hael gan lawer, a gwerthfawrogwn hynny'n fawr iawn.